
cplll | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Cronfa Bensiynau CLWYD Pension Fund



# Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

# Canllaw i Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol

Ebrill 2026

# Tudalen Cynnwys

Beth ydi Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)? .......... 4
CGY Cost a Rennir .......... 4
Sut mae CGY yn gweithio? .......... 5
Faint alla' i ei dalu i mewn? .......... 5
Cyfraniadau hyblyg .......... 5
Cael gostyngiad yn y dreth .......... 5
Sut mae'r rhyddhad treth yn gweithio .......... 5
Sut rydych chi'n arbed gyda CGY .......... 6
Beth alla' i ei wneud gyda fy CGY? .......... 6
Brynu incwm rheolaidd a delir am weddill eich bywyd (y Farchnad Agored) .......... 6
Prynu pensiwn CPLlL atodol .......... 7
Cymryd arian parod di-dreth .......... 7
Prynu aelodaeth ychwanegol yn y CPLlL .......... 7
Gadael eich CGY wedi'u buddsoddi a'u defnyddio yn nes ymlaen .......... 8
Trosglwyddo eich cronfa CGY i gynllun neu drefniant pensiwn arall .......... 8
Rhybuddion i chi feddwl amdanynt .......... 9
Cael cyngor .......... 9
Cyngor ariannol annibynnol .......... 10
Beth os ydi fy CGY dros y terfyn di-dreth? .......... 10
Beth sy'n digwydd i fy CGY os byddaf yn dewis ymddeoliad hyblyg? .......... 10
Beth sy'n digwydd i fy CGY os ydw i'n gadael cyn ymddeol? .......... 10
Beth sy'n digwydd i fy CGY os ydw i'n marw cyn ei gymryd? .......... 11
Mae gen i CGY blaenorol gyda'r CPLlL. Oes modd i mi eu trosglwyddo os ydw i'n ailymuno â'r CPLlL? .......... 11
Ffyrdd eraill o gynyddu eich buddion pensiwn .......... 11
Prynu pensiwn ychwanegol yn y CPLlL: Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY) .......... 11
Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol annibynnol .......... 11
Pensiynau personol neu fudd-ddeiliaid .......... 12
Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol ac yswiriant bywyd ychwanegol .......... 12
Treth a'ch pensiwn .......... 13
Cyfyngiadau ar faint y gallwch ei dalu .......... 13
Cyfyngiadau ar faint o bensiwn y gallwch ei gronni .......... 13

Atodiad ........ 14
Enghraifft 1: Cymryd eich CGY mewnol cyfan fel arian parod di-dreth ........ 14
Enghraifft 2: Pan mae'ch CGY yn ormod i gymryd y cyfan fel arian parod di-dreth ........ 16
Ymwadiad ........ 17
Cysylltwch â ni ........ 17

## Beth ydi Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)?

Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) yw cynilion hirdymor y gallwch chi eu cael ar ôl ymddeol yn unig.  Mae'n ffordd hyblyg o dalu cyfraniadau ychwanegol, gallwch eu cynyddu, eu gostwng, rhoi'r gorau i'w talu neu eu hailddechrau unrhyw bryd.

Pan fyddwch chi'n cynilo CGY, byddwch chi'n talu arian mewn i gynllun CGY ar wahân yn ogystal â phrif Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL). Byddwch yn cronni cronfa o arian y byddwch yn ei ddefnyddio i ddarparu buddion ychwanegol i'ch buddion CPLlL pan fyddwch chi'n ymddeol.

Yn y mwyafrif o achosion, mae'n rhaid i chi gymryd eich cynllun CGY pan fyddwch chi'n cymryd eich prif fuddion CPLlL. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os oes gennych chi ddewis i oedi cyn cymryd eich CGY.

Mae gan bob cronfa bensiynau llywodraeth leol drefniant gyda darparwr Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol.  Mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn defnyddio **Prudential** (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg). Gallwch fuddsoddi arian mewn cronfeydd sy'n cael eu rheoli ganddynt.

Yr enw ar y trefniadau yma ydi **CGY mewnol** ac fe gyfeirir atynt fel CGY yn y canllaw hwn.

Mae gennych eich cyfrif personol eich hun sydd yn cronni dros amser gyda'r cyfraniadau yr ydych yn eu talu i mewn.  Mae'r swm sydd yn eich cyfrif yn dibynnu ar ba mor hir yr ydych chi'n talu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol, effaith ffioedd a pha mor dda mae'r gronfa/cronfeydd yr ydych yn buddsoddi ynddynt yn perfformio.  Chi sy'n dewis sut mae'r arian yn eich cynllun CGY yn cael ei fuddsoddi.

Mae eich cynllun CGY yn fuddsoddiad, gall y gwerth ostwng yn ogystal â chodi. Efallai na fyddwch chi'n derbyn cymaint yn ôl â'r hyn yr ydych yn ei fuddsoddi.

Gallwch dalu hyd at 100% o'ch tâl pensiynadwy (heb y didyniadau statudol, fel yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn) i gynllun CGY. Tâl pensiynadwy ydi'r tâl yr ydych fel arfer yn talu cyfraniadau pensiwn arno.  Fel arfer mae'n dibynnu ar gyflog, enillion a thaliadau eraill, gyda rhai eithriadau.

Efallai yr hoffech chi gael cyngor ariannol annibynnol ynglŷn â chychwyn cyfrif CGY.

## CGY Cost a Rennir

Mae rhai cyflogwyr yn talu mewn i'ch cynllun CGY gyda chi os ydych chi'n cymryd rhan mewn cynllun aberthu cyflog; hynny yw, trefniant lle mae eich cyflogwr yn talu cyfraniadau ar eich rhan a bod y ddau ohonoch yn arbed ar yswiriant gwladol.

Gelwir yr opsiwn hwn yn Rhannu Cost CGY. Bydd angen i chi holi'ch cyflogwr i weld a ydyn nhw'n cynnig Rhannu Cost CGY, gan eu bod yn cael eu trefnu'n wahanol. Fe wnaiff eich cyflogwr egluro beth i'w wneud a sut i fynd ati i aberthu rhywfaint o'ch cyflog i drefnu hyn.

# Sut mae CGY yn gweithio?

## Faint alla' i ei dalu i mewn?

Gallwch dalu hyd at 100% o'ch tâl pensiynadwy (heb y didyniadau statudol, fel yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn) i gynllun CGY.  Serch hynny, os oes gennych chi lawer o arian yn eich cynllun CGY pan fyddwch chi'n ymddeol, efallai y bydd gennych chi **swm CGY gweddilliol.**

## Cyfraniadau hyblyg

Gallwch ddewis talu swm penodol neu ganran o'ch tâl, neu'r ddau, mewn i CGY, cyn belled nad yw'n mynd dros 100% o'ch cyflog.

Mae CGY yn cael eu tynnu o'ch cyflog, yn union fel eich cyfraniadau pensiwn arferol. Mae didyniadau'n dechrau o'r cyfnod tâl nesaf sydd ar gael ar ôl i chi greu cyfrif CGY. Gallwch newid eich CGY neu roi'r gorau i'w talu ar unrhyw adeg tra byddwch chi'n talu mewn i CPLlL.

- Os byddwch chi'n talu mewn i CGY mewnol: Mae'n rhaid i chi gysylltu â Prudential os hoffech chi wneud unrhyw newidiadau i'ch didyniadau CGY
- Os byddwch chi'n talu mewn i CGY Cost a Rennir: Dylech gysylltu â'ch cyflogwr i ddarganfod sut i wneud unrhyw newidiadau i'ch didyniadau CGY

Gallwch dalu CGY os ydych ym mhrif adran y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu'r adran 50:50.

## Cael gostyngiad yn y dreth

Caiff eich cyfraniadau CPLlL a CGY eu didynnu cyn i'ch treth gael ei gyfrifo, felly, os ydych chi'n talu treth, rydych chi'n derbyn gostyngiad yn y dreth yn awtomatig drwy'r adran gyflogau.

Er y bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu cynilo gymaint ag yr hoffent mewn i CGY, mae faint o ryddhad ar dreth gyfraniadau pensiwn y gallant ei dderbyn yn gyfyngedig.  Gweler rhan **Treth a'ch pensiwn** ar ddiwedd y canllaw yma i gael mwy o wybodaeth.

## Sut mae'r rhyddhad treth yn gweithio

Caiff CGY ei dynnu o'ch cyflog cyn treth. Mae unrhyw arian y byddech fel arfer yn ei dalu fel treth incwm yn mynd i'ch cynllun CGY yn awtomatig yn lle. Os ydych chi'n talu treth ar gyfradd uwch, bydd eich arbedion treth yn uwch. Ers blwyddyn dreth 2024/2025, os nad ydych chi'n ennill digon i dalu treth, fe fydd y Llywodraeth yn gwneud taliadau ychwanegol. Rydym yn disgwyl i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi wneud y cyntaf o'r taliadau yma yn 2026.

**Ar gyfer trethdalwr ar y gyfradd sylfaenol:** bydd buddsoddiad o **£100** yn eich cynllun CGY yn costio **£80** i chi

**Ar gyfer trethdalwr ar y gyfradd uwch:** bydd buddsoddiad o **£100** yn eich cynllun CGY yn costio **£60** i chi

## Sut rydych chi'n arbed gyda CGY

Fe fydd Prudential yn creu eich cyfrif personol i chi. Mae eich cyfrif yn cronni dros amser gyda'ch cyfraniadau ac unrhyw arenillion buddsoddi y byddwch chi'n eu gwneud.

Bydd y swm yn eich cyfrif yn dibynnu pa mor hir yr ydych chi'n talu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol, effaith ffioedd, a pha mor dda mae'r gronfa/cronfeydd yr ydych yn buddsoddi ynddynt yn perfformio.

Chi sy'n dewis sut mae'r arian yn eich cynllun CGY yn cael ei fuddsoddi. Fe fydd gan y buddsoddiadau sydd ar gael lefelau risg gwahanol. Yr uchaf yw'r risg, yr uchaf yw'r buddion posibl. Yr isaf yw'r buddion posibl, yr isaf yw'r risg.

Efallai y gallwch chi daenu eich buddsoddiadau (a risgiau) dros nifer o feysydd buddsoddi megis ecwitïau (cyfranddaliadau), bondiau eiddo ac arian parod. Mae gan bob un ei risgiau a'u buddion posibl.

Fel gyda phob buddsoddiad, fe allai'r gwerth ostwng neu gynyddu ac efallai na fyddwch chi'n derbyn cymaint yn ôl â'r hyn yr ydych yn ei fuddsoddi.

# Beth alla' i ei wneud gyda fy CGY?

Mae'r rhan yma'n egluro sut y gallwch chi ddefnyddio eich cynllun CGY yn y CPLlL a'r opsiwn i'w drosglwyddo i drefniant pensiwn gwahanol. Gweler hefyd yr **atodiad** i'r canllaw yma, gan ei fod yn dangos rhai o'r enghreifftiau o sut y gallwch chi ddefnyddio eich CGY.

**Pan fyddwch chi'n cymryd eich prif fuddion CPLlL, gallwch ddefnyddio eich CGY i:**

## Brynu incwm rheolaidd a delir am weddill eich bywyd (y Farchnad Agored)

Gallwch ddefnyddio eich cynllun CGY i brynu incwm rheolaidd gydol oes, sy'n cael ei alw'n flwydd-dal. Mae'r blwydd-dal yn sicr o gael ei dalu cyn belled â'ch bod yn fyw. Mae blwydd-daliadau'n cynnig nodweddion gwahanol allai fod o ddiddordeb i chi, megis telerau gwell os nad oes gennych chi iechyd da a chynnydd blynyddol i ddal i fyny â chostau byw.

Pan fyddwch chi'n prynu blwydd-dal, fe allwch chi fel arfer gymryd rhywfaint o'ch cynllun CGY fel cyfandaliad di-dreth ar yr un pryd. Caiff blwydd-dal ei dalu ar wahân i'ch buddion CPLlL.

Mae swm y blwydd-dal yn dibynnu ar sawl ffactor, megis cyfraddau llog a'ch oedran. Yn gyffredinol, yr hynaf ydych chi pan fyddwch chi'n cymryd blwydd-dal, y mwyaf o incwm y byddwch chi'n ei gael.

Mae gennych chi hefyd ddewis o ran y math o flwydd-dal. Er enghraifft, os ydych chi eisiau:

- lefel o flwydd-dal sydd yn darparu incwm uwch i ddechrau, ond bod y taliadau'n aros yr un fath am oes

- blwydd-dal graddol a fydd yn dechrau ar gyfradd is ac yn cynyddu dros amser i ddal i fyny â chostau byw
- i ddarparu ar gyfer buddion dibynyddion petaech chi'n marw

Nid oes yn rhaid i chi brynu blwydd-dal gan eich darparwr CGY. Mae hi'n bwysig iawn eich bod chi'n chwilio o gwmpas i gael y gyfradd blwydd-dal gorau yn seiliedig ar eich amgylchiadau personol a nodweddion y blwydd-dal yr ydych chi'n chwilio amdano.

Fel arfer mae'n rhaid i chi brynu blwydd-dal pan fyddwch chi'n cymryd eich prif fuddion CPLlL. Serch hynny, os adawoch chi'r CPLlL cyn 1 Ebrill 2014, gallwch adael eich cynllun CGY wedi'i fuddsoddi a'i ddefnyddio wedyn.

## Prynu pensiwn CPLlL atodol

Os wnaethoch chi dalu mewn i'r CPLlL **ar neu ar ôl 1 Ebrill 2014,** gallwch ddefnyddio rhywfaint o'ch cynllun CGY, neu'r cynllun cyfan, i brynu pensiwn ychwanegol fel blwydd-dal o Gronfa Bensiynau Clwyd. Fe fydd y pensiwn ychwanegol y byddwch yn ei brynu yn cynyddu yn unol â chostau byw.

Os byddwch chi'n dewis yr opsiwn yma, bydd eich dibynyddion yn cael pensiwn ychwanegol yn awtomatig petaech chi'n marw.

## Cymryd arian parod di-dreth

Gallwch gymryd rhywfaint o'ch cynllun CGY, neu'r cynllun cyfan fel cyfandaliad di-dreth, ar yr amod:

- Nad yw cyfanswm y cyfandaliad di-dreth yn fwy na 25% o werth cyffredinol y buddion yr ydych yn eu cymryd. (Cyfanswm y cyfandaliad yw unrhyw gyfandaliad y byddwch yn ei gymryd o'ch prif fuddion CPLlL a chyfandaliad y CGY)
- Nad yw cyfanswm y cyfandaliad di-dreth yn fwy na'ch lwfans cyfandaliad

Y lwfans cyfandaliad ar hyn o bryd yw £268,275. Fe allai fod yn is os ydych chi eisoes wedi cymryd taliad o drefniant pensiwn y DU.

Os ydych chi dros y lwfans cyfandaliad ac yn methu cymryd eich CGY cyfan fel cyfandaliad di-dreth, mae'n rhaid defnyddio unrhyw CGY sy'n weddill i brynu blwydd-dal, boed hynny ar y farchnad agored neu o Gronfa Bensiynau Clwyd. Gweler **enghraifft 2 yn yr atodiad** i gael mwy o fanylion.

## Prynu aelodaeth ychwanegol yn y CPLlL

Dim ond os wnaethoch chi ddechrau talu mewn i'ch cynllun CGY **cyn 13 Tachwedd 2001** y mae hwn yn berthnasol.

Efallai y gallwch chi drosi eich cynllun CGY mewn i aelodaeth CPLlL ychwanegol er mwyn cynyddu eich buddion CPLlL. Dim ond mewn amgylchiadau penodol y bydd hyn yn bosibl, megis ymddeoliad hyblyg, ymddeol ar sail iechyd, neu os ydych chi'n rhoi'r gorau i dalu CGY cyn i chi ymddeol.

Fe gewch chi bensiwn blynyddol gwerth 1 rhan o 60 o'ch cyflog terfynol ar gyfer pob blwyddyn o'ch aelodaeth yr ydych yn ei brynu gyda'ch CGY.

## Gadael eich CGY wedi'u buddsoddi a'u defnyddio yn nes ymlaen

Os adawoch chi'r CPLlL cyn 1 Ebrill 2014, gallwch ddewis peidio â chymryd eich cynllun CGY pan fyddwch yn cymryd eich prif fuddion CPLlL. Gallwch adael eich cynllun CGY wedi'i fuddsoddi a'i ddefnyddio yn nes ymlaen. Mae'n rhaid i chi ei gymryd erbyn eich bod yn 75.

Os nad ydych chi'n cymryd eich cynllun CGY ar yr un pryd â'ch prif fuddion CPLlL, fe fydd eich opsiynau yn wahanol pan fyddwch chi yn eu cymryd. Dim ond uchafswm o 25% o'ch cynllun CGY y gallwch ei gymryd fel arian parod di-dreth. Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r gweddill i brynu blwydd-dal.

**Os wnaethoch chi dalu mewn i'r CPLlL ar neu ar ôl 1 Ebrill 2014, rhaid i chi gymryd eich cynllun CGY ar yr un pryd â'ch prif fuddion CPLlL.**

## Trosglwyddo eich cronfa CGY i gynllun neu drefniant pensiwn arall

Gallwch drosglwyddo eich cynllun CGY i un neu fwy o drefniadau pensiwn gwahanol hyd yn oed os ydych chi'n dal i dalu cyfraniadau CPLlL ar hyn o bryd. Os oeddech chi'n talu cyfraniadau CPLlL ar ôl 31 Mawrth 2014, dim ond cyn i chi gymryd eich pensiwn CPLlL y gallwch drosglwyddo. Mae'n rhaid i chi roi'r gorau i dalu CGY mewn unrhyw swydd CPLlL sydd gennych chi cyn y gallwch drosglwyddo eich cynllun CGY.

Os oes gennych chi fwy nag un cynllun CGY, mae'n rhaid i chi drosglwyddo'ch holl gynlluniau, hyd yn oed os ydynt yn cael eu cadw gyda chronfeydd CPLlL gwahanol.

Mae darparwyr pensiwn gwahanol yn gadael i chi ddefnyddio eich cronfa bensiynau mewn ffyrdd gwahanol, yn cynnwys yr opsiwn i brynu incwm rheolaidd (blwydd-dal). Trwy drosglwyddo allan i un neu fwy o drefniadau pensiwn gwahanol, efallai y gallwch gael mynediad at opsiynau nad ydynt ar gael o dan reolau CPLlL, megis:

- Cymryd nifer o gyfandaliadau ar adegau gwahanol. Fel arfer, bydd 25% cyntaf o arian a dynnir o'ch pot yn ddi-dreth a bydd y gweddill yn cael ei drethu.
- Cymryd yr holl bot ar unwaith fel arian parod. Fel arfer, bydd 25% cyntaf yn ddi-dreth a bydd y gweddill yn cael ei drethu. (Cofiwch, mae modd cymryd eich cynllun CGY CPLlL cyfan fel cyfandaliad di-dreth, yn ddibynnol ar amodau penodol, os byddwch chi'n ei adael yn y CPLlL ac yn ei gymryd ar yr un pryd â'ch prif fuddion CPLlL.

- Darparu incwm ymddeoliad hyblyg. Gelwir hyn yn tynnu i lawr mynediad hyblyg. Fel arfer gallwch gymryd cyfandaliad di-dreth o hyd at 25% ac yna neilltuo'r gweddill i ddarparu cyfandaliadau trethadwy pan fo angen, neu incwm trethadwy rheolaidd.

Fe allai sut rydych chi'n cymryd eich CGY effeithio ar faint o dreth sydd yn rhaid i chi ei dalu. Mae'r incwm o'ch pensiwn yn drethadwy; mae'r gyfradd o dreth yr ydych yn ei dalu yn dibynnu ar faint o incwm yr ydych yn ei dderbyn o'ch pensiynau ac o ffynonellau eraill.

Mae gan yr opsiynau y sonnir amdanynt uchod nodweddion gwahanol, cyfraddau gwahanol o daliad, ffioedd gwahanol a goblygiadau treth gwahanol.

# Rhybuddion i chi feddwl amdanynt

Fel gyda phob penderfyniad ariannol, dylech feddwl am eich amgylchiadau personol. Dylech hefyd feddwl am y ffaith bod arian o bensiwn yn cyfrannu tuag at unrhyw dreth incwm y gallai fod rhaid i chi ei dalu.

Fe allai trosglwyddo eich buddion o'r CPLlL gael effaith negyddol ar eich incwm ymddeol terfynol chi a'ch dibynyddion. Os ydych chi'n ystyried trosglwyddo eich cynllun CGY, dylech fod yn ymwybodol o dwyllwyr.

Darllenwch fwy am **sut i osgoi twyll pensiwn** ar wefan The Pensions Regulator. (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

## Cael cyngor

Penderfynu sut i ddefnyddio eich cynllun CGY ydi un o'r penderfyniadau ariannol pwysicaf yr ydych yn debygol o'i wneud. Rydym yn argymell eich bod yn cael arweiniad a/neu gyngor ariannol annibynnol i'ch helpu i benderfynu pa opsiwn sydd fwyaf addas i chi pan fyddwch chi'n gadael/penderfynu cymryd eich buddion.

Mae **Pension Wise** yn wasanaeth amhleidiol, am ddim sy'n cael ei gynnig gan y Llywodraeth. Os ydych chi dros 50, fe all Pension Wise eich helpu i ddeall eich dewisiadau pensiwn cyfraniad diffiniedig (er enghraifft CGY). Gallwch ddysgu mwy drwy fynd i **dudalen Pension Wise** ar wefan MoneyHelper y Llywodraeth, neu drwy ffonio **0800 138 3944** i drefnu apwyntiad dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Gan ei fod yn benderfyniad mor bwysig, ni chaniateir i Gronfa Bensiynau Clwyd gymeradwyo eich cais i gymryd Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol nes ichi fod naill ai wedi cael cyngor gan Pension Wise neu ddweud wrthym ni nad ydych yn dymuno hynny. Mae hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

Gallwn gynnig trefnu apwyntiad gyda Pension Wise i chi pan fyddwch chi'n cysylltu â ni ynghylch cymryd eich cynllun CGY.

## Cyngor ariannol annibynnol

Mae'r dolenni isod yn mynd i wefannau allanol. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r gwefannau yn uniaith Saesneg.

Gallwch hefyd gael cymorth i **ddewis ymgynghorydd ariannol** o wefan MoneyHelper.

Mae **MoneyHelper** yn cynnig cyngor ariannol amhleidiol ac am ddim, yn cynnwys gwybodaeth am bensiynau ac ymddeol.

**Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol** yw'r corff rheoleiddio ar gyfer ymgynghorwyr ariannol annibynnol.

**The Personal Finance Society** ydi'r corff proffesiynol ar gyfer ymgynghorwyr ariannol. Mae'n darparu mynediad at aelodau sydd â chymwysterau priodol sydd yn ymrwymo i'r safonau proffesiynol a moesegol uchaf posibl.

Mae **Unbiased** yn wefan sy'n rhestru ymgynghorwyr ariannol annibynnol, broceriaid morgais, cyfreithwyr a chyfrifwyr. Mae'n gwirio bod pawb wedi cofrestru â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

## Beth os ydi fy CGY dros y terfyn di-dreth?

Mae CGY gweddilliol yn rhan o'ch cynllun CGY na allwch ei gymryd fel cyfandaliad di-dreth pan fyddwch chi'n cymryd eich pensiwn CPLlL. Mae hyn yn digwydd pan fyddwch chi'n cyrraedd y terfyn 25% di-dreth, felly mae rhywfaint o CGY yn weddill. Mae'n rhaid defnyddio'r swm sy'n weddill mewn rhyw ffordd arall. Yn y CPLlL, gallwch ddefnyddio CGY gweddilliol i **brynu pensiwn CPLlL ychwanegol** neu i **brynu blwydd-dal ar y farchnad agored**. Mae'n annhebygol y bydd eich CGY yn mynd dros y terfyn 25%, ond meddyliwch am hyn pan fyddwch chi'n penderfynu faint i'w gyfrannu i'ch CGY. Os nad ydych chi'n sicr, dylech gael cyngor ariannol arbenigol annibynnol.

## Beth sy'n digwydd i fy CGY os byddaf yn dewis ymddeoliad hyblyg?

Os dechreuodd eich cynllun CGY cyn 13 Tachwedd 2001, fe fydd eich contract CGY yn dod i ben pan fyddwch chi'n ymddeol yn hyblyg. Fe fydd yn rhaid i chi ddefnyddio eich cynllun CGY cyfan mewn un o'r ffyrdd a nodwyd yn gynharach yn y canllaw hwn pan fyddwch chi'n dewis ymddeoliad hyblyg.

Os dechreuodd eich cynllun CGY ar ôl 13 Tachwedd 2001, gallwch ddewis cymryd eich cynllun CGY cyfan neu ddim ohono pan fyddwch chi'n dewis ymddeoliad hyblyg. Os hoffech chi, gallwch barhau i dalu CGY, ond fe fydd angen i chi greu cyfrif CGY newydd.

## Beth sy'n digwydd i fy CGY os ydw i'n gadael cyn ymddeol?

Os byddwch yn gadael cyn ymddeol, bydd eich cyfraniadau yn dod i ben pan fyddwch yn gadael.

Bydd gwerth eich cynllun CGY yn parhau i gael ei fuddsoddi hyd nes y caiff ei dalu i chi. Gallwch drosglwyddo eich cynllun CGY i un neu fwy o drefniadau pensiwn gwahanol neu ei gymryd ar yr un pryd â'ch buddion CPLlL.

## Beth sy'n digwydd i fy CGY os ydw i'n marw cyn ei gymryd?

Os byddwch chi'n marw cyn cymryd eich cynllun CGY, bydd yn cael ei dau fel cyfandaliad grant marwolaeth. Fe fydd eich darparwr CGY yn talu'r swm i'ch cronfa bensiynau CPLlL a fydd yna'n ei dalu yn unol â rheolau CPLlL.

Os ydych chi wedi dewis talu CGY i yswiriant bywyd, bydd cyfandaliad marw yn y swydd a/neu bensiwn dibynyddion hefyd yn daladwy.

## Mae gen i CGY blaenorol gyda'r CPLlL. Oes modd i mi eu trosglwyddo os ydw i'n ailymuno â'r CPLlL?

Os byddwch chi'n cyfuno eich prif fuddion CPLlL, fel arfer mae'n rhaid i'r CGY yr ydych wedi'u cronni gael eu trosglwyddo i drefniant CGY sy'n cael ei gynnig gan eich cronfa bensiynau CPLlL newydd.

# Ffyrdd eraill o gynyddu eich buddion pensiwn

## Prynu pensiwn ychwanegol yn y CPLlL: Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY)

Mae Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol yn gontract i brynu swm ychwanegol o bensiwn blynyddol o'ch cronfa CPLlL. Ar 1 Ebrill 2014, gosodwyd terfyn o £6,500 y flwyddyn i gapio swm y pensiwn blynyddol y gallwch ei brynu yn y CPLlL. Mae'r terfyn hwn wedi'i amddiffyn rhag effeithiau chwyddiant bob blwyddyn ers hynny.  Dangosir y terfyn presennol ar y gyfrifiannell CPY ar-lein. Gallwch ddefnyddio'r ddolen isod i weld beth fyddai cost CPY:

**https://www.lgpsmember.org/help-and-support/tools-and-calculators/buy-extra-pension-calculator** (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

Os ydych chi'n talu treth, rydych chi'n cael gostyngiad yn y dreth ar bob cyfraniad pensiwn hyd at 100% o'ch enillion trethadwy.

## Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol annibynnol

Mae'r rhain yn debyg i'r cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol mewnol ond nid ydynt yn gysylltiedig â'r CPLlL mewn unrhyw ffordd.

Gyda chyfraniadau gwirfoddol ychwanegol annibynnol, chi sy'n dewis y darparwr, sy'n gwmni yswiriant fel arfer. Efallai yr hoffech ystyried eu ffioedd gwahanol, buddsoddiadau amgen a pherfformiad yn y gorffennol pan fyddwch chi'n gwneud hyn.

Gallwch ddewis faint i'w dalu mewn i drefniant cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol annibynnol. Gallwch dalu hyd at 100% o'ch enillion trethadwy y DU, heb eich cyfraniadau CPLlL arferol.

Bydd faint o incwm y bydd eich cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol annibynnol yn ei ddarparu yn dibynnu ar ba mor hir yr ydych chi'n talu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol, effaith ffioedd, a pha mor dda mae'r gronfa/cronfeydd yr ydych yn buddsoddi ynddynt yn perfformio. Mae eich cynllun CGY yn fuddsoddiad, gall y gwerth ostwng yn ogystal â chodi. Efallai na fyddwch chi'n derbyn cymaint yn ôl â'r hyn yr ydych yn ei fuddsoddi. Gallwch ddewis pa lwybr buddsoddi sydd orau gennych chi.

Gallwch fel arfer gymryd hyd at 25% o werth cronfa cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol annibynnol fel cyfandaliad di-dreth.

Gallwch hefyd dalu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol annibynnol i gael yswiriant bywyd ychwanegol.

Mae eich aelodaeth CPLlL eisoes yn rhoi yswiriant o dair gwaith eich tâl pensiynadwy tybiedig os byddwch chi'n marw yn y swydd. Mae tâl pensiynadwy tybiedig yn ffigur tâl pensiynadwy tybiannol a ddefnyddir i sicrhau nad yw eich pensiwn yn cael ei effeithio os bydd eich cyflog yn cael ei ostwng yn ystod cyfnod o salwch neu anaf, absenoldeb perthnasol yn gysylltiedig â phlant neu absenoldeb gwasanaeth y lluoedd wrth gefn.

Gallwch gynyddu'r swm yma gan ddefnyddio cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol annibynnol neu ddefnyddio'r cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol annibynnol i ddarparu buddion dibynyddion ychwanegol pan fyddwch chi'n marw.

Fe allai hyn fod yn amodol ar gwblhau gwiriad meddygol yn foddhaol.

## Pensiynau personol neu fudd-ddeiliaid

Gallwch wneud eich trefniadau eich hun i dalu mewn i gynllun pensiwn personol neu gynllun pensiwn budd-ddeiliad ar yr un pryd â thalu mewn i'r CPLlL. Chi sy'n dewis y darparwr gyda'r trefniadau yma. Mae angen i chi feddwl am eu ffioedd, buddsoddiadau amgen a pherfformiad yn y gorffennol pan fyddwch chi'n gwneud hyn.

**Fe'ch cynghorir i gael cyngor ariannol cyn cymryd unrhyw ffurf o arbediad pensiwn ychwanegol.**

# Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol ac yswiriant bywyd ychwanegol

Gallwch hefyd dalu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol i gael yswiriant bywyd ychwanegol. Mae eich aelodaeth o'r CPLlL eisoes yn rhoi yswiriant o dair gwaith eich tâl pensiynadwy tybiedig os byddwch chi'n marw yn y swydd. Gallwch dalu CGY i gynyddu hyn a darparu buddion ychwanegol ar gyfer eich dibynyddion petaech chi'n marw yn y swydd. Bydd unrhyw yswiriant y byddwch yn ei brynu yn dod i stop pan fyddwch chi'n cymryd eich buddio CPLlL neu'n gadael eich swydd.

# Treth a’ch pensiwn

Un o’r manteision o gynilo gyda chynllun pensiwn cofrestredig megis y CPLlL, yw eich bod yn derbyn rhyddhad ar dreth ar y cyfraniadau rydych yn eu talu mewn i gynllun. Mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn cyfyngu cyfanswm y rhyddhad treth y gallwch ei dderbyn.

Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu arbed cymaint ag yr hoffent oherwydd y bydd eu cynilion pensiwn yn llai na’r terfyn. Serch hynny, os ydych chi’n ystyried gwneud cynilion pensiwn ychwanegol, megis CGY, mae hi’n bwysig eich bod chi’n ymwybodol o’r terfynau.

## Cyfyngiadau ar faint y gallwch ei dalu

Nid oes yna gyfyngiad cyffredinol ar faint o gyfraniadau y gallwch eu talu, ond dim ond ar gyfraniadau hyd at 100% o’ch enillion trethadwy mewn blwyddyn dreth y rhoddir gostyngiad ar y dreth.

Gallai cyfyngiad gwahanol fod yn berthnasol os ydych chi’n talu mewn i drefniant ‘gostyngiad yn y dreth yn y tarddiad’, megis pensiwn personol neu gynllun pensiwn budd-ddeiliad.

## Cyfyngiadau ar faint o bensiwn y gallwch ei gronni

Y lwfans blynyddol yw'r swm y gall eich buddion pensiwn gynyddu mewn blwyddyn heb i chi orfod talu treth. Ers mis Ebrill 2023, y lwfans blynyddol safonol ydi £60,000.

Os ydych chi’n ennill cyflog mawr, fe allai eich lwfans blynyddol fod yn is oherwydd ‘gohiriad’.

Ar gyfer trefniadau prynu gydag arian, fel cynlluniau CGY, y lwfans blynyddol rydych yn ei ddefnyddio yw cyfanswm y cyfraniadau sy’n cael eu talu gennych, neu ar eich rhan, dros y flwyddyn dreth.

Ar gyfer trefniadau buddion diffiniedig, megis y CPLlL, cyfanswm y lwfans blynyddol a ddefnyddir yw’r twf yng ngwerth eich buddion pensiwn dros y flwyddyn dreth.

Os bydd eich cynilion pensiwn CPLIL yn uwch na’r lwfans blynyddol safonol mewn unrhyw flwyddyn yn dod i ben ar 5 Ebrill, bydd cronfa bensiynau eich CPLlL yn cysylltu â chi erbyn 6 Hydref i roi gwybod i chi.

Gallwch ddod o hyd i werth y cynnydd yn eich cynilion pensiwn ar gyfer pob un o’r tair blynedd diwethaf drwy ofyn i’ch cronfa bensiynau am gyfriflen arbedion pensiwn.

I gael mwy o wybodaeth am y lwfans blynyddol, yn cynnwys gwybodaeth am ‘ohiriad’ ar gyfer y rhai sydd ar gyflog mawr a’r goblygiadau os ydych wedi cymryd buddion cyfraniad diffiniedig ar neu ar ôl 6 Ebrill 2015, ewch i wefan **Tax page of the LGPS member** (mae’r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg). Gallwch ddod o hyd i ddolen i adnodd i wirio eich lwfans blynyddol ar y dudalen honno.

Gallwch hefyd wylio **fideos Pensions Made Simple** am y lwfans blynyddol a phynciau CPLlL eraill ar wefan LGPS member.

# Atodiad

## Enghraifft 1: Cymryd eich CGY mewnol cyfan fel arian parod di-dreth

Pan fydd Jim yn ymddeol, bydd ganddo'r un buddion pensiwn â Gareth, ond mae ganddo hefyd botyn CGY mewnol o £27,000 yr hoffai ei gymryd fel arian parod di-dreth.

I weld a yw'n bosib iddo gymryd ei botyn CGY cyfan fel arian parod di-dreth, byddai'n rhaid cyfrifo gwerth cyfalaf ei fuddion er mwyn canfod ei gyfandaliad di-dreth uchaf.

**Cam 1: Cyfrifo gwerth cyfalaf buddion y CPLlL**

120 x pensiwn blynyddol + 10 x cyfandaliad awtomatig (os oes yna un) + 10 x potyn CGY mewnol ÷ 7 = gwerth cyfalaf buddion y CPLlL

- 120 x pensiwn blynyddol Jim o £10,000 + 10 x cyfandaliad Jim o £24,000 + 10 x potyn CGY Jim o £27,000 ÷ 7 = £244,285.71

Gwerth cyfalaf buddion CPLlL Jim, yn cynnwys ei botyn CGY mewnol yw **£244,285.71**

**Cam 2: Cyfrifo'r cyfandaliad di-dreth uchaf**

Gwerth cyfalaf x 25% = cyfandaliad di-dreth uchaf

- £244,285.71 x 25% = £61,071.42

Y cyfandaliad di-dreth uchaf y gall Jim ei gymryd yw **£61,071.42**

**Cam 3: Troi pensiwn blynyddol yn gyfandaliad di-dreth uchaf**

Cyfandaliad di-dreth uchaf - cyfandaliad di-dreth awtomatig - potyn CGY mewnol ÷ 12 = pensiwn blynyddol y gall Jim ei droi'n gyfandaliad uchaf

- £61,071.42 - £24,000 - £27,000 ÷ 12 = £839.28 o bensiwn blynyddol y gall Jim ei droi'n gyfandaliad

Pensiwn blynyddol - pensiwn blynyddol y gall Jim ei droi'n gyfandaliad = pensiwn blynyddol is

- £10,000 - £839.28 = £9,160.72 o bensiwn blynyddol is

Os bydd Jim yn cymryd y cyfandaliad di-dreth uchaf, ei bensiwn blynyddol fydd **£9,160.72**

Dyma ddewisiadau ymddeol Jim gyda'i botyn CGY mewnol:

| Dewis 1: buddion safonol | |
|---|---|
| Pensiwn blynyddol: | £10,000 |
| Cyfandaliad di-dreth<br>(cyfandaliad awtomatig o £24,000 + potyn CGY mewnol o £27,000) | £51,000* |
| *Gall Jim ddewis cymryd gwerth cyfunol ei gyfandaliad awtomatig a'i botyn CGY mewnol fel arian parod di-dreth, gan ei fod yn llai nag uchafswm yr arian parod di-dreth a ganiateir, sef £61,071.42. | |

| Dewis 2: buddion uchaf | |
|---|---|
| Pensiwn blynyddol:<br>(pensiwn blynyddol safonol o £10,000 - pensiwn blynyddol o £839.28 sydd wedi'i droi'n gyfandaliad) | £9,160.72 |
| Cyfandaliad di-dreth uchaf<br>(cyfandaliad awtomatig o £24,000 + potyn CGY mewnol o £27,000 + cyfandaliad o £10,071.42 wedi'i greu o'r pensiwn blynyddol) | £61,071.42** |
| **Er mwyn cymryd y cyfandaliad di-dreth uchaf, bydd rhaid i Jim leihau ei bensiwn blynyddol o £839.28, er mwyn rhoi'r arian parod di-dreth ychwanegol o £10,071.42 iddo. | |

## Enghraifft 2: Pan mae'ch CGY yn ormod i gymryd y cyfan fel arian parod di-dreth

Weithiau, gallai gwerth potyn CGY mewnol aelod fod yn rhy uchel i gymryd y cyfan fel arian parod di-dreth, gan ei fod yn fwy na'r cyfandaliad di-dreth uchaf a ganiateir. Os bydd hyn yn digwydd, gellir cynnwys y swm o CGY y caniateir ei gymryd fel arian parod di-dreth yn gyfandaliad di-dreth uchaf. Rhaid defnyddio gweddill y CGY i brynu pensiwn ychwanegol yn y CPLlL neu i brynu pensiwn, a elwir yn flwydd-dal, gyda darparwr pensiwn arall.

**Enghraifft:**

Pan fydd Susan yn ymddeol, bydd ganddi'r un gwerth pensiwn blynyddol CPLlL a chyfandaliad awtomatig â Jim, ond mae ei photyn CGY mewnol werth £43,000. Gyda'i gilydd, mae ei chyfandaliad awtomatig o £24,000 a'i photyn CGY yn (£43,000 + £24,000 = £67,000). Fe welwch chi yn yr enghraifft isod na fyddai'n cael cymryd y cyfan fel arian parod di-dreth, gan mai'r cyfandaliad uchaf a ganiateir yw £66,785.72. Golyga hyn y byddai yna £214.28 (£67,000 - £66,785.72 = £214.28) dros ben.

**Cam 1: Cyfrifo gwerth cyfalaf buddion y CPLlL**

120 x pensiwn blynyddol + 10 x cyfandaliad awtomatig (os oes yna un) + 10 x potyn CGY mewnol ÷ 7 = gwerth cyfalaf buddion y CPLlL

- 120 x pensiwn blynyddol Susan o £10,000 + 10 x cyfandaliad Susan o £24,000 + 10 x potyn CGY Susan o £43,000 ÷ 7 = £267,142.86

Gwerth cyfalaf buddion CPLlL Susan a'i photyn CGY mewnol yw **£267,142.86**

**Cam 2: Cyfrifo'r cyfandaliad di-dreth uchaf**

Gwerth cyfalaf x 25% = cyfandaliad di-dreth uchaf

- £267,142.86 x 25% = £66,785.72

Y cyfandaliad di-dreth uchaf y gall Susan ei gymryd yw **£66,785.72**

**Cam 3: Troi pensiwn blynyddol yn gyfandaliad di-dreth uchaf**

Gan fod potyn CGY mewnol Susan (£43,000), o'i ychwanegu at ei chyfandaliad awtomatig (£24,000), yn dod i gyfanswm o £67,000, ni chaiff droi unrhyw swm o'i £10,000 o bensiwn blynyddol yn gyfandaliad di-dreth ychwanegol. Y rheswm am hyn yw ei bod eisoes wedi mynd dros derfyn ei chyfandaliad di-dreth uchaf, sef £66,785.72.

Dyma'r dewis sydd gan Susan wrth ymddeol ar ôl defnyddio'r swm dros ben yn ei photyn CGY mewnol (£214.28) i brynu pensiwn CPLlL ychwanegol:

| Dewis: | |
|---|---|
| Pensiwn blynyddol:<br>(pensiwn blynyddol safonol o £10,000 + pensiwn blynyddol ychwanegol o £10.71, wedi'i brynu o'r £214.28 dros ben o'i photyn CGY mewnol)*** | £10,010.71 |
| Cyfandaliad di-dreth uchaf<br>(cyfandaliad awtomatig o £24,000 + £42,785.72 o botyn CGY Susan y gall ei gymryd i fod o fewn terfyn y cyfandaliad di-dreth uchaf a ganiateir) | £66,785.72 |
| ***Mae'r swm dros ben o botyn CGY mewnol Susan (£214.28) wedi'i ddefnyddio i brynu £10.71 o bensiwn blynyddol ychwanegol, sydd yna'n cael ei ychwanegu at ei phensiwn blynyddol safonol o £10,000.<br><br>Cyfrifwyd y pensiwn blynyddol ychwanegol drwy ddefnyddio'r ffactorau o Adran Actiwari'r Llywodraeth. Caiff y ffactorau hyn eu hadolygu o bryd i'w gilydd. Mae'r ffactorau a ddefnyddir yn dibynnu ar oedran a p'un a yw'r aelod yn penderfynu defnyddio'r pensiwn ychwanegol a brynwyd gyda'r CGY ar gyfer eu pensiwn blynyddol yn unig, neu ar gyfer eu pensiwn blynyddol ac unrhyw bensiwn goroeswyr fydd yn daladwy yn y dyfodol.<br><br>Yn yr enghraifft hon, mae Susan wedi penderfynu prynu'r pensiwn ychwanegol ar gyfer ei phensiwn blynyddol yn unig. | |

## Ymwadiad

Canllaw ar gyfer gweithwyr yng Nghymru a Lloegr yw hwn ac mae'n adlewyrchu rheolau'r CPLlL a chyfreithiau sy'n drech na'r rheiny o fis Ebrill 2026.

Fe all y Llywodraeth wneud newidiadau sydd yn drech na'r rheolau sy'n golygu y gallai fod yna newidiadau i'r CPLlL yn y dyfodol.

Os bydd unrhyw anghydfod ynglŷn â'ch buddion pensiwn, y ddeddfwriaeth briodol fydd drechaf. Nid yw'r canllaw hwn yn rhoi unrhyw hawliau contract na hawliau statudol, ac fe'i darperir er gwybodaeth yn unig.

## Cysylltwch â ni

I gael gwybodaeth fanylach am y CPLlL:

**Rhif ffôn:** 01352 702875

**E-bost:** pensiynau@siryfflint.gov.uk

**Cyfeiriad:** Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint, CH5 3FF

**Gwefan:** https://www.cronfabensiynauclwyd.org.uk

cronfabensiynauclwyd.org.uk

**Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF**

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.